



Teitl:	Arweinydd Tîm Ardal Teuluoedd yn Gyntaf
Lleoliad:	Gweithio Ystwyth / Canolfan Plant Integredig Blaenau
Cyfarwyddiaeth:	Gwasanaethau Plant
Cyfeirnod Swydd:	BG12630
Cyflog:	Gradd 9 (£43,693 - £47,754 y flwyddyn)
Oriau:	37
Contract:	Tymor Penodol tan 31^{ain} Mawrth 2026

Mae'r Tîm Teuluoedd yn Gyntaf ym Mlaenau Gwent angen Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol cymwysedig sydd â phrofiad ôl-gymhwyso mewn gwaith cymdeithasol gofal plant i gefnogi staff o fewn y Tîm Teuluoedd yn Gyntaf.

Bydd yr Arweinydd Tîm yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth o safon uchel mewn perthynas â phob agwedd ar y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a chynorthwyo'r Rheolwr i gyflawni'r rhaglen yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Hysbyseb Lawn

Bydd deilydd y swydd yn cefnogi a rheoli llwyth gwaith a dyraniadau achos i'r Gweithwyr Cefnogi Teuluoedd o fewn y tîm ardal Teuluoedd yn Gyntaf, gan sicrhau bod y tîm yn cynnal asesiadau o ansawdd yn seiliedig ar Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) a llunio cynlluniau cymorth unigol gan ddefnyddio'r Tîm o gwmpas ymagwedd y Teulu. Bydd yr Arweinydd Tîm yn sicrhau bod pob aelod o staff o fewn y rhaglen yn gallu ac yn gweithredu ar bryderon diogelu.

Bydd deilydd y swydd yn cynnal nifer o achosion angen uwch a'u tasgau gweinyddol cysylltiedig, gan gynnwys paratoi adroddiadau a recordiadau achos. Bydd yr Arweinydd Tîm yn arwain ar elfennau penodol o'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a bydd yn goruchwyllo gweithwyr cymorth yn y tîm.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cefnogi'r Rheolwr Tîm Teuluoedd yn Gyntaf mewn meysydd cyfrifoldeb dynodedig a'r holl ddyletswyddau eraill fel sy'n ofynnol gan uwch ymarferydd gwaith cymdeithasol.

Hanfodol i'r swydd yw CQSW: Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol neu Radd Gwaith Cymdeithasol a chofrestriad fel Gweithiwr Cymdeithasol gan Gofal Cymdeithasol Cymru; a phrofiad o gynnal asesiadau a phrofiad o ddiogelu ac asesu risg.

Mae angen cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru dan gategori Rheolwyr Gofal Cymdeithasol/Gweithwyr Cymdeithasol ar gyfer y swydd hon a bydd angen cofrestru cyn dechrau yn y swydd. Mae gwybodaeth ar sut i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ar y wefan ddilynol <https://socialcare.wales>

Mae mynediad i gerbyd at ddibenion gwaith yn ofyniad.

Gwneir sgrinio cyn-gyflogaeth drylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad o Gofnod Troseddol.

Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg

Dyddiad Cau: 20.02.2025

Dyddiad Cyfweld: 05.03.2025